| | Cymwyseddau WCN | | Cymhorthol | Cynorthwyol | Cyn-gofrestru’n unig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu Effeithiol** | | | | | |
| | **Cymhwysedd ac Elfennau Cysylltiedig** | | | | |
| 1.1 | Cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu’n glir, yn effeithiol ac yn sensitif gyda chleifion, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. | 3.3, 3.7, 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 4.5, 4.6, 4.8, 4.10, 4.12, 10.5, | | | 1.11, 7.6, 11.3, 11.5, 12.7, 12.13, 16.9, 16.10, 16.12, 17.11, 19.1, 19.3, 20.1, 22.1, 22.5, 22.11, 24.13, |
| 1.2 | Cydnabod unigolion sy’n ofidus ac ymateb yn briodol iddynt, gan gynnal ymagwedd digynnwrf a sensitif i’w cynorthwyo. At hynny, cydnabod sefyllfaoedd sy’n gofyn am uwchgyfeirio at weithwyr iechyd cofrestredig (h.y. wrth gyfathrebu â chleifion sy’n ofidus yn sgil diagnosis neu ddarpar-ddiagnosis canser). | 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 4.5, 4.6, 4.8, 4.10, 4.12, 6.6, 10.5, 22.8, | | | |
| 1.3 | Dangos y gallu i ysgrifennu a chynnal cofnodion clir a chywir o ran gwybodaeth am gleifion mewn amrywiol fformatau (h.y. electronig a phapur). | 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 4.5, 4.6, 4.10, 4.12, 10.13, 11.10, | | | |
| 1.4 | Teilwra gwybodaeth mewn ffordd sy’n diwallu anghenion unigol cleifion/gofalwyr neu weithwyr proffesiynol eraill (h.y. mewn ymateb i ymholiadau, traddodi gwybodaeth i gleifion/teuluoedd – gan gynnwys pryderon/anghenion, adfer camddealltwriaeth, neu fel rhan o waith hybu iechyd neu gynghori). | 3.3, 4.1, 4.8, 6.1, 7.1, 7.3, 7.6, | | | |
| 1.5 | Cydnabod ac addasu arddulliau a dulliau o gyfathrebu’n briodol i fodloni dewisiadau ac anghenion cleifion.<br>(h.y. wrth gyfathrebu â phobl o amrywiol oedrannau, diwylliannau, galluoedd, a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol, pobl ag amhariad synhwyraidd neu wybyddol, ac hefyd annog y defnydd o dechnoleg gynorthwyol, e.e. dolenni clywed, cymhorthion gweledol). | 4.1, 4.8, 4.9, 5.1 | | | |
| 1.6 | Defnyddio technegau cyfweld ysgogol / sgiliau cyfathrebu effeithiol yn unol â “Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif” i nodi cyfleoedd priodol i drafod pynciau fel y canlynol ag unigolion, gan wneud addasiadau rhesymol yn ôl yr angen:<br>- effeithiau ysmygu<br>- ymddygiadau rhywiol<br>- camddefnyddio sylweddau<br>- defnydd o alcohol<br>- deiet<br>- ymarfer corff | 17.7, 17.11, | | | |
| 1.7 | Galluogi unigolion i adeiladu ar eu cryfderau a gwneud dewisiadau gwybodus i reoli eu haddasiadau eu hunain o ran eu hiechyd a’u ffyrdd o fyw. | 2.8, 3.6, 6.4, 17.10, | | | |
| 1.8 | Deall pwysigrwydd rhannu gwybodaeth, penderfyniadau a sylwedd trafodaethau â thimau iechyd gyda chleifion (a gofalwyr / partneriaid os yw’n briodol). | 8.2, 14.11, | | | |
| 1.9 | Darparu gwybodaeth ynghylch pryd a sut y gall y cleifion (a gofalwyr) gysylltu â pherson/gweithiwr proffesiynol perthnasol. | 6.8, 7.7, 8.1, | | | |
| 1.1 0 | Diweddaru a rhannu gwybodaeth briodol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a'r tîm amlddisgyblaethol ehangach mewn modd amserol. | 8.3, | | | |
| 1.11 | Defnyddio amrywiaeth o dechnolegau digidol yn effeithiol a chyfrifol i gyrchu, mewnbynnu, rhannu a defnyddio gwybodaeth a data o fewn timau a rhwng asiantaethau. Gwneir hyn tra’n cynnal cyfrinachedd ar bob cyfrif a chaffael cydsyniad ar sail gwybodaeth. | 1.12, 5.12, | | | |

| **Galluogi’r Modd o Gyrchu Gwasanaethau** | | |
|---|---|---|
| | **Cymhwysedd ac Elfennau Cysylltiedig** | |
| 2.1 | Meddu ar ymwybyddiaeth o sut i gyrchu gwybodaeth gywir a chyfredol ar gyfer ystod o wasanaethau lleol a chenedlaethol i ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol i unigolion a gofalwyr. Cyfeirio at weithwyr proffesiynol/gwasanaethau priodol (gyda chydsyniad yr unigolyn). | 2.6, 3.4, 7.8, 8.5, 13.1, 17.11, |
| 2.2 | Meddu ar ddealltwriaeth o’r modd y caiff gofal iechyd ei drefnu drwy ystod y Llwybrau canser/lle’r amheuir canser, gyda’r gallu i egluro hyn i gleifion a'u gofalwyr. | 5.10, 13.4, 13.6, 19.3, |
| 2.3 | Dangos blaengaredd wrth geisio cysylltiadau â gwasanaethau lleol perthnasol. | 17.11, |
| 2.4 | Gallu amlinellu sut i fabwysiadu dull rhagweithiol, datrys problemau wrth gynorthwyo pobl i gysylltu â gwasanaethau a’u cyrchu. | 17.11, |
| 2.5 | Darparu adborth amserol i gydweithwyr ar faterion yn ymwneud â chyrchu wasanaethau. | 17.8, |
| 2.6 | Addysgu a hysbysu staff a chydweithwyr eraill am hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau. | 24.1, |
| 2.7 | Mynd ati i chwilio am gysylltiadau perthnasol a phriodol i ddatblygu rhwydwaith sy’n pontio ystod eang o sectorau gan gynnwys y sectorau iechyd, cymdeithasol a gwirfoddol. | 7.7, 17.11, |

| **Diwallu Anghenion Pobl** | | |
|---|---|---|
| | **Cymhwysedd ac Elfennau Cysylltiedig** | |
| 3.1 | Mabwysiadu dull o drin gofal sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ymroi i asesu, cynllunio a phennu amcanion wrth weithio gyda phobl a’u teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau o bob oed. | 1.1, 1.3, 1.7, 5.4, 10.6, 12.13, |
| 3.2 | Pennu anghenion cymorth sylfaenol cleifion yn fanwl gywir trwy ddulliau priodol o gyfathrebu. | 1.2, 1.6, |
| 3.3 | Arddel ymarweddiad cyfannol, anfeirniadol a gofalgar. Gweithredu mewn ffordd sy'n cydnabod credoau, blaenoriaethau a dewisiadau pobl. | 1.1, 1.6, 2.4, 3.4, 3.5, |
| 3.4 | Dynodi pobl sydd ‘mewn perygl’ ac a allai fod yn agored i niwed gan ddefnyddio dulliau priodol (fel y'u pennir yn ôl trefniadau lleol). | 12.5, 10.6, |
| 3.5 | Asesu gallu unigolion i wneud penderfyniadau ynglŷn â’u gofal eu hunain ac i roi eu cydsyniad neu i wrthod trafod unrhyw bryderon gyda gweithwyr proffesiynol cofrestredig a thimau amlbroffesiynol. | 3.5, 5.12, 6.7, 12.8, |
| 3.6 | Cymhwyso’r egwyddorion a’r prosesau er budd gwneud addasiadau rhesymol wrth asesu anghenion a chynllunio gofal, gan drafod addasiadau gyda’r tîm amlbroffesiynol. | 12.13, |
| 3.7 | Gweithio mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd a gofalwyr i fonitro a gwerthuso’n barhaus ac ailasesu effeithiolrwydd cynlluniau gofal cyfannol cytunedig yn unol â’r dystiolaeth, y protocolau a’r canllawiau sydd ar gael. | 5.10, 13.4, 13.6, 19.3, |
| 3.8 | Cynorthwyo unigolion wrth bontio gofal rhwng lleoliadau a gwasanaethau. | 9.1, 9.3,13.8, |
| 3.9 | Arddangos y gallu i gynnal asesiadau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, er enghraifft, trwy gynnal sgyrsiau â chymorth a thrafod esboniadau priodol neu drwy ddefnyddio adnoddau e.e. eHNA/thermomedr cyfyngder Macmillan, addasu ac adolygu cynlluniau gofal unigol a’u rhoi ar waith yn unol â phrotocolau lleol cytunedig sy’n adlewyrchu’r canlynol:<br><br>anghenion meddyliol, corfforol ac ymddygiadol<br>cyflyrau iechyd gwybyddol<br>defnydd o feddyginiaeth<br>triniaethau ac ymchwiliadau a ddefnyddir yn gyffredin ym maes gofal canser a'r rhesymeg dros eu defnyddio (gan gynnwys ystodau canlyniadau). | 5.2, 10.1, 11.3, 11.5, 12.12, 12.13, 12.16, 17.11, 19.3, 20.5, |

| **Proffesiynoldeb a Gweithio mewn Partneriaeth** | | |
|---|---|---|
| | **Cymhwysedd ac Elfennau Cysylltiedig** | |
| 4.1 | Meithrin a chynnal perthnasoedd ymddiriedus, proffesiynol gyda chleifion a'u rhwydwaith cymorth ehangach. | 1.3, 1.5, 2.1, 14.11, |
| 4.2 | Gwybod pryd a sut i ddod â pherthnasoedd proffesiynol gyda chleifion a'u gofalwyr i ben. | 2.1, |
| 4.3 | Cynnal ymdeimlad amlwg o rôl a chyfrifoldeb mewn tîm. Cefnogol a chymwynasgar gydag aelodau eraill y tîm. | 1.10, 1.15, 21.6, 24.12, |
| 4.4 | Ymwneud â staff clinigol ac anghlinigol mewn sefydliadau eraill a chydweithio â hwy, gan feithrin perthnasoedd adeiladol ar draws sectorau. | 1.15, 14.11, 21.1, 21.5, |
| 4.5 | Deall egwyddorion archwilio a gwella ansawdd ac ymroi iddynt, gan nodi meysydd i’w gwella a’u trafod gyda’r rheolwr llinell. | 1.17, 21.6, 23.5, 23.6, 23.16, 24.12, |
| 4.6 | Dangos gwybodaeth am systemau a phrosesau sy'n ymwneud â rheoli ac uwchgyfeirio cwynion, pryderon, digwyddiadau, anghydfodau a chanmoliaethau yn ogystal â rhannu arferion da yn unol â pholisi a deddfwriaeth leol a chenedlaethol. | 1.11, 2.5, 2.9, 2.10, 2.11, 21.6, 21.16, |
| 4.7 | Ystyried a mynd i'r afael yn briodol â chyfyngderau moesegol/moesol a ddaw i’r amlwg wrth ymroi i waith a allai effeithio ar ofal pobl yr effeithir arnynt gan ganser. Hyrwyddo cydraddoldeb, tegwch a pharch at bobl a chydweithwyr mewn ymarfer dyddiol, a gweithredu'n briodol pan fo ymddygiad yr ymarferydd neu ymddygiad pobl eraill yn tanseilio cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. | 1.11, 2.5, 2.6, 2.11, 2.10, |
| 4.8 | Eirioli a chyfrannu at ddiwylliant o ddysgu sefydliadol i ysbrydoli staff y dyfodol a staff presennol. Gweithredu fel model rôl, gan geisio meithrin a datblygu hyder eraill. Cydnabod pobl fel ffynonellau dysg yng nghyd-destun eu hanesion, eu profiadau a’u safbwyntiau, ac fel cyfoedion i gyd-ddylunio a chyd-ddarparu cyfleoedd addysgol. | 24.4, 24.5, 24.19, |
| 4.9 | Gallu trafod pwysigrwydd cydgynllunio llwybrau canser â’r cleifion eu hunain a nodi hanes cryno cleifion sy’n ymgyflwyno ag anghenion gofal lliniarol neu sydd ar ddiwedd eu hoes. Hefyd, deall ac ymarfer o fewn y fframwaith cyfreithiol allweddol sy'n ymwneud â gofal diwedd oes megis:<br><br>Ewyllys fyw<br>Atwrneiaeth Gyfreithiol<br>Na Cheisier Dadebru<br>Cynlluniau Uwchgyfeirio Triniaeth | 20.1, 20.4, |
| 4.1 0 | Dangos y gallu i weithio o fewn ac hyd at frig y cyfwng bandio, gan uwchgyfeirio materion y mae angen cymorth / goruchwyliaeth arnynt. Cydnabod a chynnal cydbwysedd rhwng bywyd proffesiynol a phersonol sy’n bodloni ymrwymiadau gwaith, yn cynnal ac yn hybu iechyd a lles personol ac yn meithrin gwydnwch. | 2.6, 2.7, |

| **Gwybodaeth i Ymarfer** | | |
|---|---|---|
| | **Cymhwysedd ac Elfennau Cysylltiedig** | |
| 5.1 | Nodi ffactorau risg ar gyfer canser a disgrifio dulliau o atal canser, sgrinio a’i ganfod yn gynnar. | 12.5, |
| 5.2 | Nodi achosion, arwyddion a symptomau cyffredin canser ac esbonio sut mae canfyddiad a diagnosis cynnar yn dylanwadu ar afiachedd, gan uwchgyfeirio fel y bo’n briodol. | 12.5, 18.1, 19.1, |
| 5.3 | Disgrifio sut mae agweddau, gwerthoedd a chredoau, mewn perthynas â chanser, yn dylanwadu ar y gofal y mae cleifion canser a'u teuluoedd yn ei gael. | 2.2, 2.3, |
| 5.4 | Meddu ar ddealltwriaeth o egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, modelau cydgynhyrchu a phenderfynu ar y cyd, a’r gallu i’w defnyddio’n ymarferol. | 5.3, 5.4, 9.1, |
| 5.5 | Deall effaith bosibl cydafiachedd ar ganser a’r driniaeth ar ei gyfer. | 5.3, 10.11,13.11, 14.1, |
| 5.6 | Deall pwysigrwydd a phwrpas hybu iechyd ac yn gallu darparu cyngor sylfaenol i hybu ymddygiadau a gweithgareddau sy’n ategu ffordd iach o fyw. | 17.7, |

| | | |
|---|---|---|
| 5.7 | Gallu dynodi ac asesu problemau gwirioneddol a phroblemau posibl y gallai fod angen sylw pellach arnynt,a deall sut i geisio cyngor a chymorth lle bo angen. Mae hyn yn cynnwys:<br><br>• Meddu ar ymwybyddiaeth o symptomau nodweddiadol canser.<br><br>• Dynodi argyfyngau oncolegol posibl (gall hyn gynnwys defnyddio offeryn/adnodd e.e. adnodd brysbennu UKONS i nodi problemau).<br><br>• Cydnabod sgil-effeithiau hirdymor canser a’r triniaethau ar ei gyfer (e.e. endocrin, iechyd esgyrn, gwenwyndra cardiaidd, materion seicorywiol, ffrwythlondeb, iechyd deintyddol, menopos cynnar).<br><br>• Effaith ar ffyrdd o fyw ac anghenion o ran cyflogaeth i’r dyfodol. | 8.5, 9.2, 10.11, 11.3, 11.5, 12.5, 12.7, 12.8, 17.7, 19.1, |
| 5.8 | Deall ffiniau'r rôl ac yn gallu uwchgyfeirio ymholiadau a gwybodaeth mewn modd amserol a phriodol i weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol. Ymateb yn gadarnhaol pan fo gwasanaethau dan bwysau, gan weithredu mewn ffordd gyfrifol ac ystyriol i sicrhau ymarfer diogel. | 6.6, 12.21, 21.2, 21.5, |
| 5.9 | Dangos dealltwriaeth a gwybodaeth am ganser a’r triniaethau ar ei gyfer mewn meysydd gwaith perthnasol. | 9.2, 12.5, |
| 5.1 0 | Cydnabod rhychwant ei gymwyseddau a'i wybodaeth fel ymarferydd gan weithio o fewn y rhychwant hwn. Hefyd, bod yn atebol ac yn gyfrifol am ei weithredoedd a chyflawni tasgau dan oruchwyliaeth ac arweiniad gweithiwr proffesiynol cofrestredig. | 1.10, 1.12, 1.13, 1.14, 2.6, 12.21, 22.1, 22.2, 22.3, 22.11, 24.3, 24.1, |
| 5.11 | Cynnal cyfoesedd ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael trwy ddefnyddio canllawiau clinigol a chanfyddiadau ymchwil yn briodol, mynychu hyfforddiant gorfodol ac ymroi i ddatblygiad proffesiynol parhaus sy’n ofynnol ar gyfer y rôl. Cymryd rhan yn y broses arfarnu ac asesu anghenion dysgu personol, yn unol â pholisi a gweithdrefnau lleol. | 1.13, 1.14, 2.6, 2.7, 22.1, 22.2, 22.3, 22.11, 24.3, 24.1, |
| 5.12 | Arddangos gwybodaeth ymarferol am y canlynol:<br><br>•yr ystod o drefnegau ansoddol a meintiol sydd ar gael, a'u pwrpas<br><br>•cysyniadau dilysrwydd a dibynadwyedd mewn perthynas â chasglu, coladu a dadansoddi data.<br><br>•y prosesau a ddefnyddir i drafod a beirniadu papurau ymchwil a sut i ystyried y goblygiadau o ran ymarfer. | 22.1, 22.2, 22.5, |

| Rhagsefydlu ac Adsefydlu | | |
|---|---|---|
| | **Cymhwysedd ac Elfennau Cysylltiedig** | |
| 6.1 | Dangos dealltwriaeth o’r rôl a phrif elfennau a buddion rhagsefydlu ac adsefydlu mewn perthynas â’r llwybr canser. Hefyd, goruchwylio a chydlynu llwybrau cymorth priodol, cytunedig ar gyfer cleifion. | 14.8, 16.1, 16.2, 16.4, 16.9, |
| 6.2 | Dangos dealltwriaeth sylfaenol o’r lefelau rhagsefydlu (model haenu yn esgyn o ofal cyffredinol i arbenigol). | 16.2, 16.3, 16.8, 16.9, 16.10, |
| 6.3 | Dangos ymwybyddiaeth o sut i gyfeirio cleifion at y gwahanol lefelau rhagsefydlu (cyffredinol i arbenigol). | 16.2, 16.3, 16.9, 16.10, 17.4, 17.5, |
| 6.4 | Caffael cydsyniad yn briodol ar gyfer archwiliadau corfforol, parchu a chynnal preifatrwydd ac urddas y claf (a’i gysur cyn belled ag y bo’n ymarferol) a chydymffurfio â gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. | 11.1, |
| 6.5 | Gwneud addasiadau i ddiwallu anghenion unigolion yn ystod ymgyngoriadau a thrafod yr addasiadau hyn gyda’r tîm amlbroffesiynol. | 11.2, |
| 6.6 | Gweithio mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd a gofalwyr i fonitro a gwerthuso’n barhaus ac ailasesu effeithiolrwydd cynlluniau gofal cyfannol cytunedig. Hefyd, archwilio addasrwydd ymyriadau rhagsefydlu (cyffredinol, targededig ac arbenigol) ac adsefydlu, gan gynnwys rhagnodi cymdeithasol ar gyfer y rhai y mae angen cymorth cyffredinol arnynt e.e. atgyfeirio unigolion at ystod o wasanaethau anghlinigol lleol megis rhaglenni gweithgarwch corfforol yn y gymuned, lle bo'n briodol. At hynny, dangos dealltwriaeth mai cymorth gwybyddol, seicolegol ac emosiynol yw’r allwedd i adsefydlu’n llwyddiannus. | 16.8,16.9, 16.10, 19.3, |
| 6.7 | Gallu trafod camau’r llwybr canser a’r continwwm rhagsefydlu hyd at adsefydlu, a ph’un a yw’r agweddau ar waith yr ymarferydd o natur rhagsefydlu neu adsefydlu. | 14.8, 16.1, 16.2, 16.4, 16.9, |
| 6.8 | Creu cyfleoedd ar gyfer cydgynhyrchu â chleifion a hybu hunanreolaeth â chymorth. Hefyd, atgyfeirio unigolion at weithwyr iechyd a gofal proffesiynol arbenigol e.e. gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd lle y bo hynny’n briodol i anghenion a dymuniadau unigolion. | 16.7, 16.10, 16.12, 24.19, |
| 6.9 | Ystyried anghenion dysgu a gwybodaeth unigolion, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau ac ymateb iddynt. At hynny, darparu cyfleoedd dysgu anffurfiol yn ogystal ag addysg a hyfforddiant ffurfiol/strwythuredig i bobl â chanser, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Gwneir hyn â’r nod o hybu ac ategu hunanofal a llythrennedd iechyd yn ogystal â grymuso’u cyfranogiad i lunio penderfyniadau ynghylch elfennau o’u gofal, eu rheolaeth a'u triniaeth - mewn perthynas â chanser, gofal lliniarol a gofal diwedd oes, er enghraifft canllawiau ymarfer corff a metastasis esgyrn. | 24.13, |